

11/09/20

Annwyl Riant / Warcheidwad,

Mae'n wych gallu rhannu newyddion positif am ymateb ein disgyblion, eich plant chi, yn yr ysgol wrth i ni ddychwelyd yn llawn yr wythnos yma! Mae eu hymateb i fesurau diogelwch Cofid a'u hagwedd i gyfrannu'n positif yn yr ysgol yn ganmoladwy iawn. Diolch i chi am eich cefnogaeth a gofynnwn i chi barhau i bwysleisio pwysigrwydd dilyn y mesurau pwysig yma er mwyn diogelu cymuned ein ysgol.

Yn anffodus, mae ychydig o'n disgyblion wedi bod yn gyndyn i wisgo eu mygydau ar y bws wrth deithio i'r ysgol. Rydym wedi eu hatgoffa o bwysigrwydd hyn er mwyn amddiffyn pob un arall sydd yn teithio ar yr un bws â hwy. Mae'n gyfle da i ni ddysgu ein plant am bwysigrwydd cymryd cyfrifoldeb a chyfrannu'n positif at ein cymuned. Gofynnwn i chi atgyfnerthu'r neges yma gyda'ch plant. Yn naturiol, os bydd disgyblion yn barhaus yn gwrthod cydymffurfio gyda'r mesurau diogelwch Cofid yma, bydd angen i ni gymryd camau addas er mwyn diogelu pawb arall sydd yn teithio ar ein bysiau ysgol.

DYDDIADAU HYFFORDDIANT MEWN SWYDD (HMS):

Dyma'r dyddiadau HMS ar gyfer y flwyddyn eleni:

Dydd Gwener 23/10/20

Dydd Llun 21/12/20

Dydd Mawrth 22/12/20

Dydd Gwener 12/02/21

Dydd Gwener 02/07/21

Dydd Gwener 16/07/21

TREFNIADAU CINIO:

O'r 14eg o Fedi, byddwn yn darparu prydau ysgol yn y ffreutur ar gyfer ein disgyblion. Wrth gwrs, bydd dal opsiwn i ddisgyblion ddod â brechdanau eu hunain, os dyma fydd eu dymuniad. Dyma'r trefniadau:

- Bydd pob blwyddyn yn parhau i gael amseroedd cinio wedi eu darwahanu.
- Bydd dewis gan ddisgyblion sydd yn dod â brechdanau i fwyta tu allan ar y buarth, neu yn un o'r neuaddau.
- Bydd ardal benodol o'r ffreutur yn cael ei neilltuo i flwyddyn benodol i fwyta eu bwyd, gyda glanhau byrddau cyn bydd blwyddyn arall yn gallu defnyddio'r ardal fwyta yma.
- Bydd dewis allan o bedair opsiwn (oer neu gynnes) pob dydd. Bydd pob opsiwn yn cynnwys prif gwrs, pwdin a diod (gweler y bwydlenni yma: [Bwydlen A](#); [Bwydlen B](#); [Bwydlen C](#); [Bwydlen D](#) - maent yn dilyn cylch tair wythnos). Ni fydd dewis gan ddisgyblion i gymysgu.
- Bydd disgyblion sydd yn dewis pryd oer o'r ffreutur yn gallu mynd a'u bwyd i'r buarth neu i'r neuadd i'w fwyta.
- Bydd disgyblion sydd am ddewis pryd cynnes yn bwyta yn y ffreutur.
- Bydd disgyblion yn parhau i dalu drwy'r system 'fimetreg' sydd gennym yn yr ysgol. Bydd rhaid i bob disgybl ddi-hentio cyn talu am ei fwyd.
- Rydym yn annog rhieni i lwytho arian ar gyfrif eich plentyn drwy'r system 'Squid' er mwyn osgoi defnyddio'r peirannau llwytho arian. Bydd rhaid i ddisgyblion ddiheintio eu dwylo cyn defnyddio'r peirannau llwytho arian.



Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe
Heol Gwryosydd, Penlan, Abertawe SA5 7BU
Ffôn 01792 560600

Ebost: ygg.bryntawe@swansea-edunet.gov.uk
www.bryntawe.swansea.sch.uk

Pennaeth : Mr Simon Davies



BUDDSODDWR
MEWN POBL

Aur



GWERSI ADDYSGU GORFFOROL:

Rydym yn falch o'ch hysbysu y bydd gwersi Addysg Gorfforol yn mynd yn eu blaenau, gan gadw at ganllawiau awdurdod lleol a'r llywodraeth yn ogystal â chanllawiau'r amrywiol gyrrff llywodraethu chwaraeon.

Er y bydd yna gyfyngiad ar y gweithgareddau yr ydym yn medru eu darparu, rydym yn awyddus i ddarparu cyfleoedd iddynt fod yn actif, gyda lles corfforol ein disgyblion yn flaenoriaeth. Byddwn yn sicrhau bod yr amgylchedd hwnnw mor ddiogel â phosib.

Gofynnwn i bob disgybl **gyrraedd yn eu gwisg ysgol fel arfer a dod â'i git Addysg Gorfforol gyda nhw** er mwyn newid iddo ar ddechrau'r wers. Bydd angen i bob disgybl ddiheintio'r fainc y byddant yn defnyddio i newid ar ddechrau'r wers, ar ôl newid mewn i'w cit, yn ogystal ag ar ddiwedd y wers, wedi newid 'nôl i'w gwisg ysgol.

Gofynnwn i chi ein cynorthwyo wrth sicrhau bod pob disgybl yn gwisgo cit Addysg Gorfforol cywir yr ysgol ar y diwrnodau y mae Addysg Gorfforol wedi ei amserlennu? Mae'r cit Addysg Gorfforol yn aros yr un peth ac ni wnaed unrhyw newidiadau. Crysau-t Addysg Gorfforol / crys rygbi, siorts glas tywyll / tracwsg / 'leggings' yr adran.

Disgwylir i bob disgybl gydymffurfio â pholisi cit yr adran. Os na all eich plentyn gymryd rhan yn y gwersi, gofynnwn i chi ysgrifennu nodyn byr gydag esboniad yn llyfr cyswllt eich plentyn.

GWISG YSGOL:

Mae'r disgyblion wedi creu argraff bositif iawn gyda'u gwisg newydd am eu bod yn edrych yn drwsiadus iawn - rwy'n siŵr eich bod yn cytuno. Hoffwn fanteisio ar y cyfle i'ch atgoffa am ein polisi gwisg ysgol (gweler y safwe am fanylion) ac yn benodol am y rheol ynghlyn â gemwaith - does **dim caniatâd gan ddisgyblion 7-11 i wisgo tlysau yn eu trwyn**. Diolch am eich cydweithrediad wrth sicrhau nad yw eich plentyn yn gwneud.

DISGYBLION Y 6ED:

Rydym yn disgwyl i ddisgyblion y 6ed i fynychu'r ysgol bob dydd pan mae ganddynt wersi. Rydym yn mynd i ganiatáu i ddisgyblion y 6ed i fynd adref cyn gynted ag y maent wedi gorffen eu gwersi am y dydd, os oes cludiant diogel ganddynt. Serch hyn, ni fydd caniatâd gan ddisgyblion i adael y safle e.e. i brynu bwyd, a dychwelyd yn ystod yr un dydd. Os ydych yn dymuno i'ch plentyn adael, gofynnwn i chi fel rhieni i sicrhau eu bod yn gwneud y defnydd gorau o'r amser yma i astudio yn eu pynciau.

Os ydych am drafod unrhyw beth uchod ymhellach, cysylltwch gyda ni yn yr ysgol?

Yn ddiffuant,





Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe
Heol Gwrysydd, Penlan, Abertawe SA5 7BU
Ffôn 01792 560600

Ebost: yg.bryntawe@swansea-edunet.gov.uk
www.bryntawe.swansea.sch.uk

Pennaeth : Mr Simon Davies



**BUDDSODDWYR
MEWN POBL**

Aur

